

## ❖ NADOLIG LLAWEN

...yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr...

(Luc 2:10) (BWM)

Nadolig llawen i chi! Dyna gyfarchiad mynych y mis hwn. Er y byddai Nadolig ‘diddan’ neu ‘hapus’ yn burion dymuniad, eto mae’n anodd rhagori ar yr ansoddair ‘llawen’. O feddwl, mae ‘llawen’ yn air pur ddewisol trwy’r Beibl: ‘Gwna yn *llawen*, wŵr ieuanc...’ (Pregethwr 11:9) (BWM); ‘Canys mewn *llawenydd* yr ewch allan...’ (Eseia 55:12) (BWM); ‘A hwy a ddechreusant fod yn *llawen*’ (Luc 15:24) (BWM); ‘...a gymerasant eu lluniaeth mewn *llawenydd*...’ (Actau 2:46) (BWM). Ac anogaeth Iesu, ‘Byddwch *lawen* a hyfryd...’ (Mathew 5:12) (BWM).

Yna, wrth gwrs, y neges a glywodd y bugeiliaid: ‘newyddion da o *lawenydd* mawr’ (Luc 2:10) (BWM). O godi trywydd y Groegwr, y Ffrancwr, y Lladinwr a’r Cymro, mae’r Sais yn cawellu’r cyfan â’r cynigion – *joy, delight, pleasure, gladness*. Pa ryfedd fod llawenydd yr wyl yn fflachio fel tinsel! Caiff Niclas y Glais (a Maes-y-plwm) grynhoi’r cyffro:

A’r swp bach dwyfol yn y gwair yn glyd,  
Yn ‘llond y nefoedd ac yn llond y byd’.

**Robin Williams**